# Cofnodion wedi'i gadarnhau o Gyfarfod Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd Iechyd Cyhoeddus Cymru Cyfarfod Agored 08 Rhagfyr 2021, 09:30 Lleoliad: drwy gyswllt Microsoft Teams

WEDI'I GADARNHAU

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol:** | | |
| Sian Griffiths | (SG) | Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol |
| Diane Crone | (DC) | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| Kate Eden | (KE) | Cyfarwyddwr Anweithredol ac Is-gadeirydd, Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| **Hefyd yn Bresennol:** | | |
| Sumina Azam | (SA) | Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus, Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol |
| Rhiannon Beaumont-Wood | (RBW) | Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd |
| Iain Bell | (IB) | Cyfarwyddwr Data, Gwybodaeth ac Ymchwil |
| Liz Blayney | (LB) | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd |
| Helen Bushell | (HB) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Tracey Cooper | (TC) | Prif Weithredwr (gadawodd am 10:25) |
| Alisha Davies | (AD) | Pennaeth Ymchwil a Datblygu |
| Drew Evans | (DE) | Pennaeth Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg, Gwybodeg |
| Meng Khaw | (MK) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Sgrinio a Diogelu Iechyd, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol |
| Kirsty Little | (KL) | Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus, Gwybodaeth Iechyd, y Gyfarwyddiaeth Data, Gwybodaeth ac Ymchwil |
| Rachel Long | (RL) | Rheolwr Cyffredinol a Llywodraethu, y Gyfarwyddiaeth Data, Gwybodaeth ac Ymchwil |
| Verity Winn | (VW) | Archwilio Cymru |
| **Ymddiheuriadau** | | |

| | | |
|---|---|---|
| Mark Bellis | (MB) | Cyfarwyddwr Gweithredol Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol |
| **Ysgrifenyddiaeth** | | |
| Andrew Morton | | Swyddog Cymorth y Bwrdd |
| *Dechreuodd y cyfarfod am 09:30* | | |

**KRIC 01/2021 Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau**

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawodd bawb i gyfarfod cyntaf y Pwyllgor sydd wedi ei ailgynnull, gan nodi, oherwydd yr ymateb parhaus i'r pandemig COVID-19 ac yng nghyswllt y canllawiau cenedlaethol sydd ar waith, fod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn electronig.

**Nododd** y Pwyllgor yr ymddiheuriad uchod.

**Nododd** y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn cynorthwyo gyda chywirdeb y cofnodion, ac y byddai'r recordiad yn cael ei ddileu unwaith y cytunir ar y cofnodion yn y cyfarfod canlynol ym mis Mawrth 2022.

**KRIC 02/2021 Datgan Buddiannau**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau yn ychwanegol at y rhai sydd eisoes wedi'u cofnodi ar y Gofrestr Datgan Buddiannau.

Fel rhan o'r drafodaeth ar eitem 3, atgoffodd SG y Pwyllgor o'i datganiad fel Dirprwy Gadeirydd Gamble Aware.

**KRIC 03/2021 Cylch Gorchwyl**

Derbyniodd y Pwyllgor y Cylch Gorchwyl (3a, b KRIC 081221 - Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd). Dywedodd LB wrth y Pwyllgor fod adolygiad o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd wedi'i gynnal a chymeradwyodd y Bwrdd y gwelliannau arfaethedig ar 25 Tachwedd 2021; roedd yr adolygiad yn dilyn cyfnod pan nad oedd y Pwyllgor wedi bod yn gweithredu o ganlyniad i'r pandemig COVID-19. Mae manylion y newidiadau llawn ar gael yn yr adroddiad eglurhaol, gyda'r cylch gorchwyl wedi'i ddiweddaru wedi'i gynnwys yn llawn yn Atodiad 1.

**Nododd** y Pwyllgor y Cylch Gorchwyl.

**KRIC 04/2021 Ymchwil a Gwerthuso – Datblygu Strategaeth**

Arweiniodd IB weithdy yn canolbwyntio ar agweddau ymchwil, gwerthuso a gwybodaeth cylch gorchwyl y Pwyllgor.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried lle yr oedd gwaith ymchwil a gwerthuso'r Sefydliad yn gryf o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru:

**Sefyllfa'r Sefydliad**

- Maint a sefyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru yn System ehangach y GIG: mae'n unigryw fel Sefydliad Iechyd Cenedlaethol sy'n cwmpasu hyd a

WEDI'I GADARNHAU

lled iechyd y cyhoedd, a chyda chysylltiadau polisi ac arweinwyr ymarfer;
- Dylai pwysigrwydd y gwaith a wneir mewn labordai fod yn uchel ar yr agenda ac wedi'i ymwreiddio yng nghynlluniau gwaith ac ethos y Sefydliad.

**Tystiolaeth a Data**
- Mae dangos gwerth yn faes sy'n tyfu (Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd);
- Tystiolaeth o anghydraddoldebau iechyd;
- Datblygwyd sylfaen dystiolaeth gyflym ar fyr dro yn ystod y pandemig;
- Yn dda am lywio gwaith atal gan ddefnyddio'r data.

**Gwerthuso**
- Mae Asesu Effaith ar Iechyd yn arf pwysig o ran cyfleu tystiolaeth;
- Gwaith epidemiolegol ac ymateb: Mynediad at ystod o ddata oherwydd rôl y Sefydliad.

**Gweithio â Phartneriaid a Chydweithio**
- Meithrin a datblygu cydweithrediadau: Proffil ac arfer da mewn meysydd megis profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a'r cydweithio presennol â Phrifysgol Bangor ar newid hinsawdd;
- Pwysigrwydd partneriaethau deugyfeiriadol.

Yna bu'r Pwyllgor yn ystyried y lleoedd a'r sefydliadau yng Nghymru lle y dylai'r Sefydliad fod yn datblygu cysylltiadau.

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar y meysydd canlynol:
- **Partneriaeth a chydweithio**: Roedd partneriaethau a chydweithio yn elfennau allweddol o ran meithrin a datblygu swyddogaethau'r sefydliad; pwysigrwydd ymagwedd ystwyth i fanteisio ar gryfderau.
- **Cynghreiriaid a hyrwyddwyr drwy'r system gyfan:** Cyfle i ddatblygu'r rhwydwaith o bartneriaid yn y byd academaidd ymhellach.
- Wrth gynllunio ar gyfer Brexit ac ar gyfer Covid, roedd rhwydweithiau a chyfleoedd newydd wedi codi a datblygu.
- **Defnyddio cysylltiadau â Phrifysgolion**: sicrhau cydweithio strategol pwysig yn y meysydd hyn gyda phob Sefydliad unigol.
- **Sgrinio:** Adeiladu ar y cysylltiadau a sefydlwyd â'r trydydd sector i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar wasanaethau sgrinio.
- **Gwyddorau Bywyd:** Mae agenda gwyddor bywyd yn tyfu'n gyflym ac mae cyfle i'w datblygu mewn modd arloesol.
- Sicrhau **mewnbwn rhanddeiliaid**.

Yna bu'r Pwyllgor yn trafod y meysydd i'w datblygu ar gyfer adran Ymchwil a Gwerthuso Iechyd Cyhoeddus Cymru:
- Cydweithio pellach ar lefel arweinwyr system â phartneriaid academaidd i sicrhau bod canlyniadau ymchwil yn canolbwyntio ar

WEDI'I GADARNHAU

sicrhau'r buddion iechyd mwyaf posibl i'r boblogaeth; deall ymddygiad er mwyn rhoi ffocws i'r meysydd ymchwil;
- Cyflwyno trosolwg llawn o'r holl ymchwil yn y sefydliad yn cwmpasu hyd a lled yr holl weithgaredd, ac yn bwydo i mewn i ecosystem y gwaith ymchwil;
- Ystyried sut y gallai Iechyd Cyhoeddus Cymru hwyluso un llwybr i bartneriaid allanol posibl, i gefnogi datblygiad ehangach partneriaethau strategol effeithiol;
- Datblygu rhwydwaith cydweithredol ymhellach i wella nodau cyffredin ar draws y system;
- Mae tegwch iechyd a phenderfynyddion ehangach iechyd y cyhoedd yn faes allweddol i ymchwilio iddo ac yn gyfle enfawr i gynyddu ymchwil sylfaenol;
- Gwelliannau pellach o ran ariannu ymchwil a chefnogi'r prosesau gwneud cais.

Gofynnodd IB i aelodau' Pwyllgor am eu barn o ran yr egwyddorion allweddol ar gyfer ymchwil Iechyd Cyhoeddus Cymru:
- Canolbwyntio ar gamau gweithredu i wella iechyd poblogaeth Cymru neu ddatblygu gwyddor diogelu iechyd newydd i wella canlyniadau;
- Cefnogi'r system gyfan drwy gysylltu â phartneriaid gan eu bod yn allweddol i'r gwaith o ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd;
- Galluogi a chefnogi penderfyniadau ar sail tystiolaeth i Iechyd Cyhoeddus Cymru a phartneriaid;
- Ei ddarparu mewn partneriaeth a thrwy gydgynhyrchu.

Trafododd y Pwyllgor strategaeth ymchwil a gwerthuso Iechyd Cyhoeddus Cymru a oedd i'w datblygu, ac awgrymwyd y dylid:
- Canolbwyntio ar werthuso'r hyn sy'n gweithio i wella iechyd a llesiant pobl Cymru;
- Bod yn fwy meintiol a seiliedig ar wyddoniaeth, defnyddio dulliau cymysg i werthuso;
- Eu cyflwyno ar yr adeg iawn er mwyn gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth ar bob lefel a galluogi datblygu tystiolaeth yn genedlaethol ac yn lleol.
- Cyd-fynd â blaenoriaethau strategol.

Diolchodd IB i'r Pwyllgor am y sylwadau, a nododd fod proses datblygu'r strategaeth wrthi'n cael ei sefydlu ar hyn o bryd, ac fel rhan o hyn, roedd y tîm wrthi'n adolygu sut y byddid yn cytuno arni, a'i chyhoeddi a sut y byddai'n cyrraedd ei chynulleidfaoedd targed yn effeithiol. Byddai'n cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor i'w hystyried fel rhan o'i datblygiad.

Amlinellodd IB yr angen i adolygu pob maes ymchwil a phennu blaenoriaeth, a sut y dylid / a ddylid ei ariannu: ariannu'n uniongyrchol, gwneud cais, dod â chyllid i mewn, a'r rhai y gall sefydliad partner eu hariannu, neu fabwysiadu briff gwylio.

WEDI'I GADARNHAU

Trafododd y Pwyllgor y blaenoriaethau o ran ymchwil, gwerthuso a dadansoddi:

- Dysgu o COVID gan gynnwys sut y mae Iechyd Cyhoeddus Cymru'n cyflawni ei rôl yn effeithiol: rhoi rhybudd i'r system, cyfrannu a chynghori yn seiliedig ar ymchwil;
- Gweithio â grwpiau rhanddeiliaid yn y gymuned i gyflawni ar ran yr holl grwpiau, yn enwedig y rhai yr effeithir arnynt fwyaf gan COVID, poblogaethau sy'n agored i niwed;
- Blaenoriaethau strategaeth hirdymor;
- Alcohol a gamblo a'r cynnydd ar ôl COVID;
- Materion iechyd meddwl, gorbryder, iselder a llesiant ar ôl COVID;
- Partneriaethau strategol â'r sector academaidd.

**Cytunodd** y Pwyllgor â'r camau nesaf i ddatblygu'r strategaeth hon fel y'i disgrifiwyd ac roedd yn edrych ymlaen at gael y wybodaeth ddiweddaraf gan IB mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

| **KRIC 05/2021** | **Rhaglen Waith** |
|---|---|

Trafododd y Pwyllgor y rhaglen waith, a chytunwyd i ganolbwyntio ar y canlynol er mwyn i'r Pwyllgor gael sicrwydd ar/drwy:

- Ddatblygu'r strategaeth Ymchwil a Gwerthuso.
- Datblygu dull o weithio mewn partneriaeth.
- Datblygu Strategaeth Ddigidol a Data sy'n cyd-fynd â'r Strategaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Ddigidol ar gyfer Cymru sydd wrthi'n cael ei datblygu.
- Trefniadau llywodraethu cywir ar waith i alluogi cyflawni yn erbyn pob un o'r strategaethau.
- Craffu dwys ar feysydd ffocws (trawsbynciol yn bennaf).

| **KRIC 06/2021** | **Materion Gweinyddol i Gloi** |
|---|---|

Unrhyw fater arall:  Nid oedd dim i'w gofnodi.

Gwahoddwyd y Pwyllgor i roi adborth o'r cyfarfod drwy e-bost, gan gynnwys unrhyw feysydd a oedd yn gweithio'n dda, ac unrhyw feysydd i'w gwella.

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf  10 Mawrth 2022.

*Dath y cyfarfod i ben am 11:40*

WEDI'I GADARNHAU